# Marchogaeth ceffylau yn yr awyr agored

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys marchogaeth ceffylau yn yr awyr agored, yn cynnwys cerdded, trotian a hanner carlamu. Dylech fod yn gallu ymarfer yn unigol ac mewn grŵp.  Bydd hyn yn cynnwys ystod o geffylau.

Byddai'r gwaith a ddisgrifir yn y safon hon yn cael ei wneud yn dilyn cytundeb gyda goruchwylydd am gyfrifoldebau a dulliau gweithio.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi allu adnabod peryglon yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. cwblhau'r paratoadau perthnasol cyn dechrau marchogaeth
3. mynd at y ceffyl yn unol â'r cyfarwyddiadau ac mewn ffordd sy'n lleihau straen ar y ceffyl, a pherygl i chi eich hun ac i eraill
4. marchogaeth y ceffyl yn yr awyr agored mewn ffordd wedi ei rheoli sy'n briodol i'r ardal waith a'r amodau
5. hysbysu'r person priodol ynghylch unrhyw anawsterau, fel y bo angen
6. addasu'r harneisiau i fodloni eich gofynion eich hun yn cynnwys cenglau a gwartholion
7. mynd ar gefn y ceffyl ac oddi ar y ceffyl yn ddiogel heb gymorth
8. mabwysiadu'r safle marchogaeth cywir i ymarfer rheolaeth dros y ceffyl
9. marchogaeth y ceffyl yn yr awyr agored yn unigol ac mewn grwpiau
10. dilyn Codau Cefn Gwlad/Mynediad perthnasol ar gyfer marchogaeth yn yr awyr agored
11. cynnal eich iechyd a'ch diogelwch chi ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gwaith

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. sut i fynd at geffylau mewn ffordd briodol er mwyn lleihau straen a pherygl i chi eich hun ac i eraill
3. yr effeithiau gwahanol ar ymddygiad ceffyl wrth farchogaeth ceffylau yn yr awyr agored yn unigol ac mewn grwp
4. y paratoadau angenrheidiol cyn marchogaeth, yn cynnwys cyfarwyddiadau ymarfer, cyfathrebu ac offer
5. y rhesymau dros fabwysiadu'r safle marchogaeth cywir
6. pam y mae'n bwysig gwirio'r harneisiau ac addasu cenglau a gwartholion
7. egwyddorion sylfaenol rheoli ceffyl
8. y peryglon yr ydych yn debygol o ddod ar eu traws wrth farchogaeth mewn man agored a'r camau i'w cymryd mewn ymateb i'r rhain
9. pwysigrwydd dilyn arferion ymarfer a'r cymhorthion y gellir eu defnyddio
10. y gweithdrefnau i'w dilyn os bydd damwain neu ddigwyddiad
11. y peryglon i geffylau, i chi ac i eraill a sut y gellir lleihau'r rhain
12. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol
13. y Codau Cefn Gwlad/Mynediad perthnasol, yn cynnwys caniatâd i fynd ar dir i farchogaeth ceffylau yn yr awyr agored

SAFONAU GALWEDIGAETHOL CENEDLAETHOL

## Cwmpas/Ystod

Mae'n rhaid i chi farchogaeth isafswm o ddau geffyl.
Mynd ar gefn ceffyl:

- gyda chymorth
- heb gymorth

Addasu'r harneisiau ar gyfer eich defnydd chi:

- cenglau
- gwartholion
- ffrwynau

Symudiadau dilynol:

- cerdded
- trotian
- hanner carlamu
- ymdrin â gatiau

## Geirfa

Peryglon:

- ceffylau eraill
- da byw
- cnydau
- pobl
- anifeiliaid eraill
- beicwyr
- cerbydau
- y tywydd
- arwynebeddau anffafriol

Marchogaeth ceffylau yn yr awyr agored

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq215 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffyl; ceffylau; marchogaeth; cae; glaswellt; trotian; hanner carlamu; gwartholion |